# Cais am drwydded bws safonol neu fawr

## Gwybodaeth am y ffurflen hon

Dylech lenwi'r ffurflen hon os dymunwch wneud cais am drwydded o dan adran 19 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985. **Sylwer: ni all endid cyfreithiol unigol ddal trwydded o dan Ddeddf 1985 a thrwydded gweithredwr o dan Ddeddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981.**

## Adran 19 Trwyddedau

Gellir rhoi trwydded adran 19 dim ond i gorff sy'n ymwneud ag addysg, crefydd, lles cymdeithasol, hamdden neu weithgareddau eraill sydd o fudd i'r gymuned. Mae'r trwyddedau hyn naill ai'n 'ganiatadau safonol' ar gyfer cerbydau sydd wedi cael eu haddasu i gludo dim mwy nag 16 o deithwyr (ac eithrio'r gyrrwr) neu'n 'drwyddedau bws mawr' ar gyfer cerbydau sydd wedi cael eu haddasu i gludo 17 neu fwy o deithwyr.

Mae trwydded yn caniatáu i'r deiliad weithredu gwasanaethau trafnidiaeth am llogi neu dâl heb fod angen trwydded gweithredwr cerbyd gwasanaeth cyhoeddus (PSV) llawn, ar yr amod nad yw'r gwasanaethau'n cael eu cyflawni gyda'r bwriad o wneud elw nac yn atodol i weithgaredd sy'n cael ei gynnal ei hun gyda golwg ar elw.

Mae trwydded adran 19 yn galluogi sefydliad i gludo ei aelodau, neu bobl y mae'r sefydliad yn bodoli i'w helpu. Ni ellir defnyddio cerbydau i gludo aelodau o'r cyhoedd.

Fel deiliad trwydded mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod eich gwasanaethau'n cael eu gweithredu o fewn y gyfraith, gyda cherbydau'n cael eu cynnal a'u cadw'n briodol a'ch bod yn defnyddio gyrwyr sydd gyda'r cymwysterau priodol.

Dim ond sefydliadau sy'n bodloni o leiaf un o'r eithriadau canlynol all wneud cais am trwydded adran 19.

## Eithriadau

- Dibenion anfasnachol – Dylai ymgeisydd fod yn fodlon bod ei ddiben cyffredinol o ran darparu trafnidiaeth i deithwyr ar y ffyrdd a'r holl wasanaethau hynny yn rhai anfasnachol yn unig.
- Prif alwedigaeth – Er mwyn bodloni'r eithriad hwn, rhaid i weithrediad cludiant teithwyr ffordd ymgeisydd fod yn ategol neu'n ategu gweithgaredd arall, mae'n rhaid iddynt fod yn brif alwedigaeth amlwg.
- Pellter byr – Dim ond ymgeiswyr sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â gweithrediadau trafnidiaeth cenedlaethol ac sy'n cael effaith fach yn unig ar y farchnad drafnidiaeth oherwydd y pellteroedd byr dan sylw all ddibynnu ar yr eithriad hwn. Ystyrir pellter byr yn gyffredinol fel y gwasanaethau hynny o

fewn radiws neu hyd o ddeg milltir, er y gellir ystyried pellteroedd hirach mewn rhai amgylchiadau.

Gellir cael arweiniad pellach yma:

https://www.gov.uk/government/publications/section-19-and-22-permits-not-for-profit-passenger-transport/section-19-and-22-permits-not-for-profit-passenger-transport

Cyfeiriwch at Ddogfen Statudol yr Uwch Gomisiynydd Traffig ar Weithrediadau PSV i gael ragor o wybodaeth.

Mae angen i'r Comisiynydd Traffig fod yn fodlon bod eich sefydliad yn gymwys i gael trwydded ac felly mae'n cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen.

**Mae rhoi gwybodaeth ffug neu addasu'r ffurflen gais er mwyn cael trwydded yn drosedd a gallai arwain at erlyniad. Gallai hefyd arwain at eich cerbyd(au) yn cael eu powndio.**

## Llenwi'r ffurflen

Cwblhewch yr holl gwestiynau perthnasol yn y meysydd a ddarperir. Lle bo angen rhagor o le, naill ai rhowch yr wybodaeth hon ar gorff yr e-bost os ydych yn ei chyflwyno'n electronig neu ar ddalen o bapur ar wahân os ydych yn ei chyflwyno drwy'r post.

Gallwch naill ai:

- Cwblhau'r ffurflen yn llawn yn electronig a'i chyflwyno gyda'r holl ddogfennaeth ategol (os yn bosibl, atodwch eich Manylion Talu ar wahân) trwy e-bost at:

  bus-registrations@otc.gov.uk

- Cwblhau'r cais gan ddefnyddio inc du gan sicrhau bod y ffurflen wedi cael ei chwblhau'n llawn a'i chyflwyno gyda'r holl dystiolaeth ategol drwy'r post i:

  Swyddfa'r Comisiynydd Traffig
  Hill- Quarry House
  Quarry Hill
  Leeds
  LS2 7UE

Nid oes angen i chi argraffu'r dudalen hon na'i anfon atom.

## MANYLION YR YMGEISYDD

**1. Enw'r corff sy'n gwneud cais (rhaid i hwn gyd-fynd â'r endid cofrestredig, os yw'n berthnasol):**

**2a. Oes gan y corff statws elusennol?**

Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes gan y corff rif elusen gofrestredig gyda Chomisiwn Elusennau Lloegr a Chymru neu Reolydd Elusennau'r Alban, rhowch y rhif hwnnw isod:

**2b. Ydy'r corff wedi cael ei gofrestru fel cwmni cyfyngedig gyda Thŷ'r Cwmnïau?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os marciwyd Ydy, rhowch rif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau isod:

**2c. Ydy'r corff wedi cael ei gofrestru fel Cwmni Buddiant Cymunedol (CBC) gyda Thŷ'r Cwmnïau?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os mai'r ateb i gwestiwn 2c yw Na, ewch ymlaen i gwestiwn 3. Os mai'r ateb i gwestiwn 2c yw Ydw, atebwch y canlynol yn ei dro:

i. mae'r CBC ar ffurf cwmni cyfyngedig trwy warant heb gyfalaf cyfrannau;

Ydy ☐ Nac ydy ☐

ii. ydy prisiau tocynnau wedi cael eu gosod ar lefel y bwriedir iddi dalu costau rhedeg (a all gynnwys dibrisiant) ond nad yw'n cynhyrchu elw;

Ydy ☐ Nac ydy ☐

iii. does dim lle i ddosbarthu difidendau i bartïon eraill yn ystod digwyddiadau arferol;

Oes ☐ Nac oes ☐

iv. does dim sgôp i gyfarwyddwyr y cwmni werthu er elw personol unrhyw ased o'r cwmni, e.e. mae gan y cwmni glo asedau;

Oes ☐ Nac oes ☐

v. mae tystiolaeth glir nad yw cyfarwyddwyr y cwmni yn talu ffioedd neu gyflogau gormodoliddyn nhw eu hunain nac eraill i gynhyrchu canlyniad 'di-elw' i'r cyfrifon;

Oes ☐ Nac oes ☐

vi. ni fyddai'r rhan fwyaf o CBC yn bodloni'r gofyniad 'di-elw', o ystyried mai rhesw cyffredi dros sefydlu CBC yw galluogi gwargedion i gael eu gwneud a'u hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau eraill sydd o fudd i'r gymuned, cadarnhewch yr hyn rydych yn gwneud ag unrhyw elw/gwarged.

**3. Manylion cyswllt y corff**

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth gan gynnwys cod post:

Rhif Ffôn / ffôn symudol:

Cyfeiriad e-bost:

**4a. Pa weithgareddau mae'r corff yn ymwneud â nhw?**

☐ Addysg

☐ Crefydd

☐ Lles Cymdeithasol

☐ Hamdden (trwyddedau safonol yn unig)

☐ Helpu a chydlynu gweithgareddau cyrff di-elw (ymgeiswyr trwydded bws mawr yn unig)

☐ Gweithgareddau eraill sydd o fudd i'r gymuned, nodwch fanylion isod:

**4b. Os yw'r corff yn ymwneud ag addysg, dewiswch statws priodol:**

☐ Ariennir gan y wladwriaeth

☐ Annibynnol

☐ Arall, rhowch fanylion isod:

5. **Pa eithriad(au) sy'n berthnasol i'r corff?** Dim ond sefydliadau sy'n bodloni o leiaf un o'r eithriadau canlynol all wneud cais am drwydded adran 19. Ystyriwch a dewiswch bob eithriad sy'n berthnasol. Am ragor o wybodaeth, darllenwch y canllawiau ar - https://www.gov.uk/government/publications/section-19-and-22- permits-not-for-profit-passenger-transport/section-19-and-22-permits-not-for-profit-passenger-transport

☐ Dibenion anfasnachol

Rhowch fanylion am sut rydych yn bodloni'r cymhwyster ar gyfer yr eithriad hwn. Gall hyn gynnwys manylion gwargedion, caffael cystadleuol neu dendro am gontractau, maint a graddfa gweithrediad, traws-gymhorthdal.

☐ Prif alwedigaeth

Rhowch fanylion am sut rydych yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn. Gall hyn gynnwys manylion am yr hyn y mae eich sefydliad yn gwneud a pham y defnyddir y cerbydau.

☐ Pellter byr

**Wrth wneud cais o dan yr eithriad pellter byr bydd angen i chi ddarparu map gyda'ch cais yn dangos y pellter byr ar ffurf cylchedd neu linell syth. Os oes angen i chi weithredu gwasanaethau sy'n bodloni'r ddau eithriad, yna mae angen cais ar wahân ar gyfer pob eithriad.**

Gall y rhai sy'n gweithredu mewn ardaloedd llai poblog ddadlau, oherwydd natur yr ardal maent yn gweithredu ynddi, fod 'pellter byr' yn hirach na'r pellter awtomatig a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Cadarnhewch pa un o'r eithriadau pellter byr sy'n berthnasol a darparwch dystiolaeth ategol:

☐ Unrhyw wasanaeth o fewn radiws o ddeg milltir, gyda'r radiws yn cael ei fesur o bwynt canolog penodedig a nodir isod neu oherwydd amgylchiadau esgusodol pellter hirach na radiws o ddeg milltir oherwydd natur yr ardal a ddisgrifir isod; neu

Pwynt canolog penodedig:

| |
|---|
| |

Amgylchiadau esgusodol:

| |
|---|
| |

☐ pellter o ddeg milltir wedi cael ei fesur mewn llinell syth o'r pwynt cyntaf pan fydd teithwyr yn gallu mynd i'r pwynt olaf pan fydd teithwyr yn gallu dod oddi ar y cerbyd neu oherwydd amgylchiadau esgusodol, pellter mwy na deng milltir mewn llinell syth oherwydd natur yr ardal a ddisgrifir isod.

Pwynt cyntaf penodedig i gychwyn a'r pwynt olaf i ddod oddi ar y cerbyd:

| |
|---|
| |

Amgylchiadau esgusodol:

| |
|---|
| |

**6. A yw'r corff yn gweithredu heb fwriad i wneud elw ar draws unrhyw un o'i weithgareddau busnes? (Cyfeirir at hyn yn aml fel 'heb ystyried elw')**

Oes ☐ Nac oes ☐

Os marciwyd Nac oes, rhowch fanylion isod:

**7. Plis cadarnhewch y bydd unrhyw gerbyd a weithredir o dan y drwydded, pe bai'n cael ei ganiatáu, yn cael ei ddefnyddio heb y bwriad i wneud elw, naill ai ar ran y corff neu unrhyw un arall.**

Rwy'n cadarnhau ☐ Dydw i ddim yn cadarnhau ☐

**8. Rhaid peidio â defnyddio trwydded gyda'r bwriad o wneud elw nac yn atodol i weithgaredd sydd ynddo'i hun yn cael ei gynnal er elw. Cadarnhewch na fydd y drwydded, os caiff ei chaniatáu, ar unrhyw adeg yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol i unrhyw weithgaredd a gynhelir gyda'r bwriad o wneud elw.** Er enghraifft, ni fydd sefydliad yn gweithredu am elw os yw'n rhedeg gwasanaeth o lety gwarchod i'r archfarchnad leol. Ond, os fydd yr archfarchnad yn cynnig talu am y gwasanaeth, byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei weithredu'n atodol i weithgaredd sydd ynddo'i hun yn cael ei gynnal gyda golwg ar wneud elw, h.y. yr archfarchnad. Ni fyddai hyn yn cael ei ganiatáu o dan drwydded.

Rwy'n cadarnhau ☐ Dydw i ddim yn cadarnhau ☐

**9. Oes gan y corff drwydded gweithredwr cerbyd gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd?**

Oes ☐ Nac oes ☐

Os marciwyd Oes, rhowch rif y drwydded isod:

**10. Oes gan y corff unrhyw drwyddedau adran 19 neu adran 22 ar hyn o bryd?**

Oes ☐ Nac oes ☐

Os marciwyd Oes, nodwch rifau y trwydded a nodwch y corff/cyrff dyroddi isod:

**11. Ydy'r cais hwn i amnewid unrhyw drwyddedau adran 19 a gollwyd neu a ddifrodwyd nad oes gennych y ddogfen drwydded A4 wreiddiol ar ei chyfer?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os nodwyd Ydy, nodwch rif(au) trwydded os gwyddoch isod:

| |
|---|
| |

**12. Ydy'r corff erioed wedi cael cais am drwydded wedi cael ei wrthod neu drwydded wedi cael ei ddirymu?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

So marciwyd Ydy, nodwch fanylion isod:

| |
|---|
| |

**MANYLION Y TRWYDDED**

**13. Faint o drwyddedau sydd eu hangen ar y corff?**

Gallwch wneud cais am unrhyw nifer o drwyddedau bws safonol neu fawr ar y ffurflen hon.

| **Cynhwysedd Cario** (peidiwch â chynnwys sedd y gyrrwr) | **Math o Drwydded** | **Nifer sydd eu hangen** |
|---|---|---|
| 9 - 16 o seddi teithwyr | Safonol | |
| 17 neu fwy o seddi teithwyr | Mawr – cerbyd unllawr | |
| 17 neu fwy o Seddi teithwyr | Mawr – cerbyd dec dwbl | |

**14. Pa ddosbarthiadau o deithwyr fydd eich cerbyd yn eu cario?** (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☐ **Dosbarth A** Aelodau o'r corff sy'n dal y drwydded

☐ **Dosbarth B** Pobl mae'r corff yn bodoli er budd iddynt, a phersonau sy'n eu cynorthwyo

☐ **Dosbarth C** Pobl anabl neu bobl sy'n ddifrifol sâl, a phobl sy'n eu cynorthwyo

☐ **Dosbarth D** Disgyblion neu fyfyrwyr unrhyw ysgol, coleg, prifysgol neu sefydliad addysgol arall a staff neu gynorthwywyr eraill sy'n dod gyda nhw

☐ **Dosbarth E** Pobl sy'n byw o fewn cymuned leol wedi'i ddiffinio'n ddaearyddol, neu grŵp o gymunedau o'r fath, nad yw eu hanghenion trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu diwallu ac eithrio yn rhinwedd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff sy'n dal y drwydded, nodwch fanylion isod:

☐ **Dosbarth F** Unrhyw ddosbarth arall o bobl a nodir yn y drwydded, nodwch fanylion isod:

**CYNNAL A CHADW CERBYDAU**

**COFIWCH, mae deiliad y drwydded yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflwr cerbydau sy'n cael eu harchwilio a/neu eu cynnal a'u cadw gan asiantau neu gontractwyr. Ceir gwybodaeth am hyn ac ar lunio contract yn yr adran 'Cyfleusterau Archwilio a Thrwsio Diogelwch' yng Nghanllaw'r DVSA i Gynnal Addasrwydd i'r Ffordd Fawr.**

**15. Ydych chi'n mynd i ddefnyddio cerbydau wedi'u llogi yn unig?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**16. Ydych chi eisoes yn meddu ar gerbyd(au)?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**17. Enw a chyfeiriad y person(au) neu'r garej a fydd yn cynnal a chadw ac yn gwasanaethu'r cerbyd a'r cyfleusterau sydd ar gael:**

| |
|---|
| |

**18. Pa mor aml mewn wythnosau y bydd archwiliadau diogelwch yn cael eu cynnal ar y cerbyd? Mae archwiliadau diogelwch yn wiriadau i sicrhau bod cerbydau'n addas ar gyfer y ffordd fawr i'r un safon â MOT. Bydd archwiliadau diogelwch yn cael eu cynnal bob 6 i 13 wythnos fel arfer yn dibynnu ar ddefnydd y cerbyd. Gweler Canllaw'r DVSA i Gynnal Addasrwydd i'r Ffordd Fawr am ragor o wybodaeth.**

O leiaf bob wythnos ☐ (Uchafswm o 13 wythnos)

**TRWYDDEDAU BWS MAWR**

**Mae'r cwestiynau canlynol i'w cwblhau dim ond os ydych yn gwneud cais am drwydded bws mawr. Os ydych yn gwneud cais am drwydded safonol yn unig, sgipiwch gwestiynau 19 i 21 ac ewch i'r datganiad ar dudalen 13.**

Dim ond i gorff sy'n helpu ac yn cydlynu gweithgareddau cyrff dielw sy'n ymwneud â'r canlynol y gellir rhoi trwyddedau bws mawr:

(a) addysg;
(b) crefydd;
(c) lles cymdeithasol; neu
(d) gweithgareddau eraill sydd o fudd i'r gymuned -

hynny yw awdurdod lleol neu "fudiad ymbarél" ar gyfer grwpiau gwirfoddol.

Nodwch na ellir defnyddio trwydded bws mawr mewn cysylltiad â gweithgaredd hamdden. Rhaid i unrhyw gerbyd mawr a ddefnyddir o dan drwydded bws mawr gael Tystysgrif Ffitrwydd Cychwynnol neu Dystysgrif Cydymffurfiaeth i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus. Rhaid profi'r cerbyd fel Dosbarth VI.

**19. Ydy eich sefydliad yn cynorthwyo ac yn cydlynu gweithgareddau cyrff di-elw eraill?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

**20. Ydy holl gweithgareddau'r cyrff rydych yn cydgysylltu â nhw yn cael eu cynnal heb unrhyw fwriad i wneud elw?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

**21. Pa gyrff ydy eich sefydliad yn eu cynorthwyo ac yn cydlynu eu gweithgareddau?**

Nodwch enw'r corff, y gweithgareddau a rôl eich sefydliad gan egluro sut mae'n cynorthwyo ac yn cydlynu gweithgareddau'r cyrff hyn:

| |
|---|
| |

**DATGANIAD**

Rwyf wedi fy awdurdodi gan y corff sy'n gwneud cais am y drwydded hon i wneud y datganiad hwn ar ran yr aelodau (neu aelodau'r gangen leol neu'r grŵp a enwir yn y cais hwn):

Bydd y corff yn gweithredu o dan y drwydded hon o fewn telerau adran 19 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adrannau hyn, ac y bydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio dim ond o dan amgylchiadau:

- pan fod gan y gweithredwr brif alwedigaeth heblaw am gweithredwr gwaith ffordd cludiant teithwyr; neu
- ei fod yn ymwneud â chludiant teithwyr ar y ffyrdd yn unig ar gyfer dibenion nad ydynt yn fasnachol; neu
- pan fydd cerbydau'n cael eu gweithredu yn y farchnad drafnidiaeth genedlaethol yn unig ac yn effaith fach yn unig ar y farchnad drafnidiaeth oherwydd y pellteroedd byr dan sylw;
- ac y cedwir at y cyfreithiau sy'n ymwneud â gyrru a gweithredu cerbydau a ddefnyddir o dan y drwydded hon.

Bydd y corff yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod unrhyw gerbyd, os yw'n berchen arno neu'n cael ei logi, yn cael ei ddefnyddio o dan y drwydded:

- yn cydymffurfio â'r gofynion adeiladu priodol ac amodau ffitrwydd;
- yn cael ei gadw mewn cyflwr addas a defnyddiol;
- bydd archwiliadau cynnal a chadw rheolaidd yn cael eu cynnal;
- bydd diffygion mecanyddol a nodir yn cael eu cywiro'n brydlon a chyn i'r cerbyd gael ei ddefnyddio eto;
- yn cael ei yswirio'n briodol ar gyfer y defnyddiau a awdurdodwyd gan y drwydded.

Bydd gyrwyr yn:

- rhoi gwybod am ddiffygion mecanyddol mewn cerbydau cyn gynted â phosibl;
- meddu ar yr hawl a'r cymhwyster priodol i yrru cerbyd gwasanaeth cyhoeddus o dan y drwydded;
- cael gwybod am eu cyfrifoldebau cyfreithiol fel gyrrwr cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio dan drwydded.

Bydd y corff yn sicrhau bod y comisiynydd traffig yn cael ei hysbysu o fewn 28 diwrnod o unrhyw newidiadau, er enghraifft newid i'r eithriad cymwys neu drefniadau cynnal a chadw arfaethedig a allai effeithio ar y drwydded, pe bai'n cael ei rhoi.

I gefnogi cais y corff am hawlen mae'r corff yn cadarnhau y bydd yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol drwy amodau:

- parhau i fodloni'r gofynion di-elw a lles cymdeithasol;
- cadw cofnodion sy'n dangos eu bod yn parhau i fod yn gorff eithriedig o fewn ystyr Rheoliad (EC) Rhif 1071/2009 a bydd yn sicrhau bod y cofnodion hynny ar gael ar gais i gomisiynydd traffig neu unrhyw gorff gorfodi;
- sicrhau mai dim ond cerbydau dros naw sedd i deithwyr fydd yn cael eu defnyddio o dan y trwyddedau;
- sicrhau bod digon o waith cynnal a chadw a chyfleusterau fel bod cerbydau'n cael eu cynnal a'u cadw yn unol â Chanllaw'r DVSA i Gynnal Addasrwydd i'r Ffordd Fawr;
- bod cerbydau'n cael y prawf blynyddol cywir ar gyfer ei ddosbarth;
- ei wneud yn ofynnol i'w yrwyr feddu ar yr hawl gywir gan gynnwys y gofynion o dan Reoliadau Gyrwyr Cerbydau (Tystysgrifau Cymhwysedd Proffesiynol) 2007/605 , Rheoliadau Bysiau Cymunedol 2009 a Deddf Trafnidiaeth 1985;
- cydymffurfio â rheolau oriau gyrrwr ac yn benodol Rheoliad (EC) Rhif 561/2006 fel y diwygiwyd gan Reoliad (EC) Rhif 1073/2009 a (EC) 165/2014;
- cadw cofnodion sy'n dangos eu bod yn parhau i fodloni'r eithriad pellter byr drwy gyfeirio at yr amgylchiadau pellter byr neu leol perthnasol, sy'n dangos mae'r effaith ar y farchnad drafnidiaeth yn fach, fel y cyfathrebwyd ar adeg y cais.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch eich rhwymedigaethau neu gymhwysedd y corff i ddal trwydded dylech gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Traffig am gyngor cyn cyflwyno cais. Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen a'i llofnodi isod, ewch i'r adran talu ar y dudalen olaf.

Rwy'n deall y gall methu â chydymffurfio â'r amodau neu'r ymgymeriadau a gofnodwyd ar drwydded arwain at gymryd camau rheoleiddio yn erbyn deiliad y drwydded a bod methu â chydymffurfio ag amodau yn drosedd.

Llofnodi – cliciwch isod i lanlwytho llofnod electronig neu lofnodi'r ffurflen bapur yn gorfforol

| |
|---|
| |

Dyddiad

| |
|---|
| |

Enw mewn PRIF LYTHRENNAU:

| |
|---|
| |

Swydd

| |
|---|
| |

**Diogelu Data**

Mae hysbysiad prosesu teg y Comisiynwyr Traffig yn dweud wrthych beth y gallwch ei ddisgwyl pan fydd comisiynydd traffig Prydain (y rheolydd data) yn casglu eich data. Bydd comisiynydd traffig yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol fel rhan o'i waith fel yr awdurdod cymwys ar gyfer asesu mynediad at alwedigaeth gweithredwyr trafnidiaeth ffordd. Gallwch weld yr hysbysiad prosesu teg yma: https://www.gov.uk/government/publications/traffic-commissioners-for-great-britain-privacy-notice.

Fel arall, gallwch ofyn am gopi papur drwy ffonio 0300 123 9000

**Sylwer: mae'n drosedd rhoi gwybodaeth ffug yn y cais hwn**

Beth sydd angen i chi wneud

- Darllenwch y nodiadau canllaw uchod 'am y ffurflen hon' cyn llenwi'r ffurflen
- Sicrhewch eich bod wedi ei lofnodi
- Sicrhewch eich bod yn rhoi unrhyw ddogfennau ategol yn yr amlen gyda'ch ffurflen wedi'i chwblhau neu atodwch nhw i'r e-bost
- Dylid anfon y cais drwy e-bost at: bus-registrations@otc.gov.uk neu ei bostio i: Swyddfa'r Comisiynydd Traffig, Swyddfa Drwyddedu, Quarry House, Quarry Lane, Leeds LS2 7UE

Nid oes angen i chi argraffu'r dudalen hon na'i anfon atom.

**MANYLION TALU**

Gallwch dalu'r ffi ymgeisio gyda cherdyn credyd/debyd neu siec/archeb bost neu ffoniwch. Darperir gwybodaeth cerdyn credyd/debyd i ni ar eich menter eich hun. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i “Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau". **Peidiwch ag anfon arian parod.**

Bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd ac ni chaiff ei ystyried ar hyn o bryd os na chaiff y ffi hon ei chynnwys. Os ydych yn anfon manylion eich cerdyn credyd/debyd drwy'r post dylech ystyried defnyddio dull diogel.

Mae manylion y ffioedd presennol i'w gweld ar ein gwefan ar: [https://www.gov.uk/government/publications/bus-registration-and-permits-scale-of-fees](https://www.gov.uk/government/publications/bus-registration-and-permits-scale-of-fees)

Os ydych yn talu gyda siec, anfonwch hwn gyda'ch cais fel yr uchod. Os ydych yn talu gyda cherdyn credyd neu ddebyd, cwblhewch y manylion isod neu rhowch fanylion pan fydd aelod o'r tîm trwyddedau yn cysylltu â chi ar y manylion a ddarparwyd yng nghwestiwn 3.

Drwy hyn, rwyf yn awdurdodi DVSA i dynnu'r swm o £ ☐ o fy nghyfrif, y rhestrir y manylion isod, mewn perthynas â'm cais am drwydded bws safonol neu fawr. Cymerir taliad pan ddaw'r cais i law.

**Math o gerdyn** (ticiwch un)

Mastercard ☐ Visa ☐ Visa Debit/Delta ☐ Maestro ☐

Enw Deiliad y Cerdyn (yn union fel mae'n ymddangos ar y cerdyn):

☐

**Rhif Cerdyn Llawn** ☐

**Dyddiad dod i ben** Mis ☐ Blwyddyn ☐ **Rhif Diogelwch y Cerdyn** ☐

**Rhif cyhoeddiad** (Maestro yn unig) ☐ **Dyddiad Cychwyn** (Maestro yn unig) Mis ☐

Mae rhif diogelwch eich cerdyn i'w weld ar ddiwedd y stribed llofnod ar gefn y cerdyn. Nodwch y tri digid olaf.

**Llofnod deiliad y cerdyn** – llofnodwch y ffurflen bapur yn gorfforol

☐

**Ni fydd eich manylion talu yn cael eu cadw am fwy o amser nag sydd eu hangen at ddiben talu'r ffi.**

**Talu dros y Ffôn**

Gallwch anfon y ffurflen heb daliad, a gallwn eich ffonio am fanylion eich cerdyn. Rhowch eich manylion cyswllt isod, ynghyd â gwybodaeth am yr amser gorau i gysylltu â chi, rhwng 9-5 Llun-Gwener

| |
|---|
| |